# Cyngor Cymuned Eglwys Bach  - Cofnodion Cyfarfod 06/02/17

**PRESENNOL:** Cynghorwyr: Gwyn Morris Jones (yn y gadair), Gwilym Williams, Gwyn Williams, John Lloyd Williams, Ceri Leeder, Arthur Williams, John Emlyn Jones (cofnodwr).

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr: Austin Roberts, Katherine Himsworth,

**DATGAN DIDDORDEB:** DIM

**COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF:** Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf (03/01/17).

**MATERION YN CODI:**

**Pont Ffordd Bryn Hir-** Deallwyd fod Mr Gwyn Parry o'r Cyngr Sir yn paratoi adroddiad erbyn yr wythnos nesaf, a bod y swyddogion wedi nodi fel blaenoriaeth i wneud rhywbeth ynglŷn â'r sefyllfa.  Efallai bydd arian ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol presennol. Nodwyd pryder gan rai o'r cynghorwyr fod y man croesi ar gyfer ceffylau yn cael ei erydu.

**Arwydd Canolfan Bwyd Cymru** - Deallwyd fod y Cyngor Sir wedi cyfeirio'r mater at Lywodraeth Cymru.

**Y Diffibrilydd** - Mae'r arwyddion y diffibrilydd wedi cyrraedd.  Mae'r Cyng. Austin Roberts yn gwneud ymholiadau gyda swyddogion y Cyngor Sir ac Ysgrifennydd y Neuadd parthed eu gosod ar bolion ffordd presennol ac ar y Neuadd. Nodwyd fod y diffibrilydd a'r blwch yn awr ar bolisi yswiriant y Cyngor ac nid yw'r premiwm wedi codi o'r herwydd, eleni.

> ***Penderfynwyd:*** *Mewn egwyddor i gadw peth arian o'r naill du pob blwyddyn ar gyfer prynu diffibrilydd newydd pan fydd oes yr un presennol wedi dod i ben. Y swm i'w benderfynu yn dilyn derbyn adroddiad ariannol yn y cyfarfod nesaf.*

**Praesept:** Nodwyd mai £6,720.75 fydd praesept 2017-18

**Swydd Clerc:** Nodwyd fod hysbysebion wedi eu rhoi yn Y Pentan, Yr Odyn a'r Weekly News.

> ***Penderfynwyd:*** *Gosod tal y clerc i ddechrau ar £150 y mis + costau. Gellir ychwanegu at hyn yn dibynnu ar brofiad y person a hyfforddiant.  Penderfynwyd hefyd talu am hyfforddiant pe bai angen. Cytunwyd i dalu costau inc argraffydd i'r cofnodwr presennol.*

**Cronfa'r Cadeirydd-** Nodwyd mai at gwblhau gwelliannau i doiledau'r bechgyn a genethod  yn Ysgol Eglwys Bach bydd y £100 o Gronfa'r Cadeirydd yn mynd.

**Sŵn Cŵn yn cyfarth.** Nodwydd y Cyng. Ceri Leeder ei bod wedi cysylltu gydag Mr Norman Jones o'r Cyngor Sir.  Roedd ef yn awgrymu bod y Cyngor yn anfon llythyr ffurfiol at y Cyngor Sir yn rhoi enwau a chyfeiriadau'r trigolion sydd a'u cŵn yn achosi niwsans i drigolion eraill.  Bydd yr adran wedyn ddelio â'r mater.

> ***Penderfynwyd:*** *Gofyn i'r trigolion sy'n cwyno i anfon llythyr at y Cyngor Cymuned er mwyn i'r Cyngor fynd a'r mater ymhellach.*

**Ceisiadau Cynllunio** - Dim byd o'r newydd ond hysbyswyd y cyfarfod fod y ceisiadau diweddar wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor Sir.

**Llwybr Troed Bryn Gwynt:** Nid oedd sicrwydd beth oedd y sefyllfa parthed y gwaith ar y llwybr yma.

> ***Penderfynwyd:*** *Gofyn i Ms Lorenz-Kubis ymchwilio os oedd y gwaith angenrheidiol i'r llwybr wedi ei gwblhau.*

**Taliadau** -

Sue Hayward (glanhau toiledau Ionawr) £122.50
Neuadd Aberconwy £44 (hurio ystafell)
Ysgol Eglwys Bach £100 (Cronfa'r Cadeirydd)
Humphreys Signs £162 (arwyddion y diffibrilydd)

**GOHEBIAETH**

**CBS Conwy** - Derbyniwyd llythyr oddi wrth y Cyngor Sir yn hysbysu'r Cyngor na fyddant yn anfon copïau papur o geisiadau cynllunio o Ebrill 1af ymlaen.

> ***Penderfynwyd:*** *Cytunodd y Cyng. John Emlyn Jones ymchwilio i'r posiblrwydd o bwrcasu gliniadur (ar gyfer gwaith y clerc) a thaflunydd ar gyfer dangos y cynlluniau wedi eu lawrlwytho ar y sgrîn yn ystod cyfarfodydd y Cyngor*.

**Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyniwyd e-bost oddi wrth Mr Gwyn Moseley o Dîm Rheoli Achosion o Lifogydd yn gofyn am gael dod i siarad â'r cynghorwyr parthed recriwtio wardeniaid llifogydd gwirfoddol yn ardal Tal y Cafn.

> ***Penderfynwyd:****Trefnu iddo ddod i'r cyfarfod nesaf.*

**Un Llais Cymru -** Derbyniwyd neges oddi wrth Lyn Cadwalladr o Un Llais Cymru, yn gwahodd y Cyngor i gwblhau arolwg.

> ***Penderfynwyd:*** *Gofyn i'r Cyng. Katherine Himsworth ddelio gydag ef.*

**Maes Llan:** Derbyniwyd llythyr gan un o drigolion Maes Llan yn dwyn sylw'r cyngor at:
**i)** parcio sy'n achosi niwsans i drigolion eraill ac mewn peryg o rwystro ambiwlans rhag cyrraedd rhywun pe bai angen.
**ii)** baw ci ger y toiledau cyhoeddus.

> ***Penderfynwyd:*** *Gofyn i swyddog yr heddlu sy'n gyfrifol am Eglwys Bach i edrych i mewn i'r mater 1af. Cysylltu gyda'r adran priodol yn y Cyngor Sir parthed yr 2il fater a gofyn beth yw'r posiblrwydd o gael rhagor o arwyddion a bin ar gyfer baw cŵn.*

**Eiteddfod Gadeiriol Llanrwst -** Derbyniwyd llythyr oddi wrth trysorydd yr Eisteddfod yn gofyn am gyfraniad tuag at y costau o gynnal yr Eisteddfod eleni.

> ***Penderfynwyd:*** *Disgwyl tan y cyfarfod nesaf i benderfynu pan fydd efallai rhagor o geisiadau am arian wedi dod ,a bydd adroddiad ariannol cyfredol y Cyngor ar gael.*

**Creu Cymunedau'n Chwarae:** Derbyniawyd gwahoddiad i'r cynghorwyr fynychu cyfarfod i gael gwybodaeth am greu cymunedau'n chwarae.

> ***Penderfynwyd:*** *Cytunodd y Cyng. Ceri. Leeder i holi rhai o rieni os oedd galw am cynllun o'r fath yn y pentref.*

**UFA**

**Materion priffyrdd - Nodwyd y canlynnol:**

> Mae angen agor y ffosydd rhwng Chweffordd a Tyn Twll.
>
> Problem gyda dŵr yn llifo ac yn rhewi ar dywydd oer ar Ffordd Cae Forys heb fod ymhell o ple mae'n uno gyda Ffordd Bodnant.

> ***Penderfynwyd:*** *Cysylltu gydag adran priffyrdd y Cyngor Sir yn dwyn yr uchod i'w sylw.*

**Parcio ar y glaswellt ger y polyn fflag-** Hysbyswyd y cyfarfod fod rhai pobl yn parcio ar y glaswellt ger y polyn fflag ac mae un o'r pyst pren sy'n gwarchod y polyn wedi cael ei daro.

> ***Penderfynwyd:*** *Cysylltu gyda'r adran priodol yn y Cyngor Sir yn gofyn a oes modd gosod rhyw fath o rwystrau rhag i bobl parcio yna.*

**Banc HSBC Llanrwst -** Mae cwmni HSBC wedi cyhoeddi eu bwriad i gau eu cangen yn Llanrwst. Teimlai'r cynghorwyr bydd hyn yn creu anhwylustod i nifer, yn arbennig unrhyw un sydd eisiau bancio drwy gyfrwng y Gymraeg.

> ***Penderfynwyd:*** *Afon llythyr at HSBC yn datgan anfodlonrwydd y Cyngor ynglŷn a hyn.*

**Drws rhwng Cilgeran a'r fynwent-** Deallwyd fod angen atgweirio rhywfaint at y drws sydd rhwng Cilgeran a'r fynwent.

> ***Penderfynwyd:*** *Cytunodd y Cyng. John Lloyd Williams erdych i mewn i'r mater.*

**Goleuadau'r toiledau cyhoeddus:** Nodwyd nad oedd y goleuadau yn y toiledau cyhoeddus yn gweithio yn iawn - efallai bod angen newid yr amserydd.

> ***Penderfynwyd:*** *Edrych i mewn i'r mater.*

**<u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</u>** - Nos Lun Mawrth 6ed 2017 am 7:30

Daeth y cyfarfod i ben am 9:15